PWYLLGOR CENEDLAETHOL COMISIWN COEDWIGAETH CYMRU
COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD 14 MAI 2010 YNG NGHAERDYDD

Yn Bresennol:	Jon Owen Jones, Cadeirydd	Judith Webb
	Roger Cooper	John Lloyd Jones
	Trefor Owen	Peter Garson
	Clive Thomas	Rory O'Sullivan
Yno hefyd:	Martin Veale	Sam Argent
	James Laing (Ysgrifenyddiaeth)	

CYFLWYNIAD

1. Cafodd Sam Argent ei groesawu i'r cyfarfod gan JOJ

COFNODION A MATERION YN CODI

2. Derbyniwyd cofnodion 26 Mawrth fel rhai cywir.

3. Cadarnhaodd TMO fod mynediad i grantiau ar gyfer perchnogion anamaethyddol yn cael ei ymchwilio gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru â chefnogaeth yr Adran Materion Gwledig. Hefyd, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd ynglŷn ag achosion o P. ramorum.

Gweithredu:

Ail anfon ffigurau'r gwariant grantiau Coetiroedd Gwell i Gymru i'r pwyllgor — **TMO**
Briffio'r pwyllgor ynglŷn â phrosiect canolfan ragoriaeth Coed y Brenin — **JL**
PG

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR

4. Dechreuodd TMO ei adroddiad drwy geisio adborth o Gyfarfod yr Holl Staff a gynhaliwyd yn ddiweddar. Awgrymodd y pwyllgor y dylid cael mwy o amser ar gyfer holi ac ateb a rhoi cyfle i'r staff ofyn cwestiynau'n uniongyrchol ar y pryd. Tynnodd JW sylw at yr angen i drosglwyddo negesau pendant i'r staff ar ôl y digwyddiad trwy gyfathrebu mewnol.

5. Rhoddodd PG y diweddaraf i'r pwyllgor ynglŷn â Niwbwrch a chadarnhaodd gwblhad yr adolygiad gwyddonol. Bydd hyn yn arwain at gynllun ar gyfer y goedwig gyfan, a dylai hyn gael ei ddeall yn well gan y buddgyfranogwyr. Gall y bydd is-bwyllgor Panel Ymgynghorol Strategaeth Coetir yn cael cais i roi sicrwydd i'r Cyfarwyddwr ynglŷn â'r Cynllun Rheoli.

6. Roedd adborth JW i'r pwyllgor yn ymwneud â diffyg "safbwynt dynol" mewn atebion testun sy'n cael eu creu gan y broses e-recriwtio newydd.

ADRODDIAD CYLLID

7. BA08/09 – Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n fodlon â'r cyfrifon wedi'u hailddatgan.

8. BA09/10 – Dywedodd MV nad oedd y ffigurau yn yr adroddiad cyfredol wedi newid ers yr adroddiad diwethaf. Roedd cyfrifon drafft yn cael eu paratoi yn barod i'w llofnodi yn y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Gorffennaf. Tynnodd MV sylw at yr arbedion gwerth £1 miliwn a oedd yn deillio o'r Cynllun Cyflenwi ar gyfer Caffael.

9. BA10/11 – Cadarnhaodd MV fod y gyllideb wedi'i phennu ac y bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn ymateb i newidiadau ariannol yn y dyfodol yn unol â chyngor yr Adran Materion Gwledig. Bellach roedd yna grynodeb ariannol lefel-uwch yng Nghynllun Corfforaethol 2010 - 2013. Dywedodd MV wrth y pwyllgor y byddai adroddiad ariannol mis Gorffennaf yn cynnwys penawdau ariannol newydd yn ôl amcanion cynllun corfforaethol. Yna cafwyd trafodaeth ynglŷn â chyllidebau'r dyfodol a'u heffeithiau ar Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Nododd y pwyllgor yr adroddiad.

ADRODDIAD AR GAMAU PERFFORMIAD A BUSNES

10. Cyflwynodd CT yr adroddiad a bu'r pwyllgor yn trafod sawl cam perfformiad megis teneuo, gwerth ychwanegol gros i'r sector coedwigaeth a therminoleg cyflwr coetir.

11. Nododd y pwyllgor nad oedd y cam busnes ar Amrywiaeth Staff yn cael ei ddiwallu. Atebodd TMO fod recriwtio isel yn ei gwneud yn anodd cyrraedd y targed hwn. Ychwanegodd ROS taw'r hyn oedd yn bwysig ei nodi oedd bod trefniadau ar waith i gyrraedd y targed. Dywedodd RC y byddai'r targed ynglŷn â Chynaladwyedd Busnes yn stori newyddion dda i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.

12. Crynhodd TMO trwy ddiolch i CT am gipio a dadansoddi data a chyflwyno'r data mewn adroddiad ffurfiol clir.

CYFATHREBU

13. Rhoddodd Sam Argent ddiweddariad ynglŷn â Chyfathrebu, gan roi sylw i gynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf a golwg i'r dyfodol.

14. Strategaeth Gyfathrebu – Dywedodd JLJ fod y strategaeth yn darllen yn dda ond roedd diffyg eglurdeb ynglŷn â hunaniaeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru, e.e. a oedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn frand ei hun neu'n rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ychwanegodd ROS fod angen eglurdeb ynglŷn â'r mater hwn. Atebodd CT fod Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n cyfathrebu'r hyn rydym yn ei wneud ar ran Strategaeth y Gweinidog. Cadarnhaodd Sam Argent fod gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru gysylltiadau â thîm Cyfathrebu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Aberystwyth a Chaerdydd.

15. Yna cafwyd trafodaeth ynglŷn â thargedau a mecanweithiau cyfathrebu. Dywedodd ROS taw ychydig iawn o bobl oedd yn darllen argrafflenni Cymru. Nid oedd y cyfryngau cyfathrebu traddodiadol bellach mor berthnasol ag y buont, ac roedd ROS am wybod faint o bobl oedd yn gwybod beth oedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n ei wneud a beth oedd swyddogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Pwysleisiodd TMO fod gennym fwy o ddisgyblaeth nawr o ran sut ydym yn cyflwyno Comisiwn Coedwigaeth Cymru trwy gyfryngau cyfathrebu a chafodd y pwyllgor ei atgoffa gan CT fod negesau erbyn hyn yn cyd-redeg â'r Cynllun Corfforaethol. Cadarnhaodd TMO fod y busnes yn barod i ddelio â chyhoeddusrwydd gwael pan fyddai hynny'n digwydd. Croesawodd JW y canolbwyntio ar gyfathrebu mewnol oddi mewn i'r strategaeth. Nododd y pwyllgor y strategaeth ddiwygiedig.

Gweithredu: **Trafod brand Comisiwn Coedwigaeth Cymru a'i berthynas â Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda Sara Moseley** — **Sam Argent**

ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2009/10

16. Cyflwynodd JL yr Adroddiad Blynyddol drafft heb y cyfrifon. Cafodd y pwyllgor ei atgoffa gan TMO fod hon yn ddogfen gryno i ddiwallu anghenion y busnes a chyflwyno'r cyfrifon. Awgrymodd y pwyllgor y dylai ystadegau Atodiad 2 Ystâd Goetir Llywodraeth y Cynulliad gael eu cyflwyno yn niwygiad y Cynllun Corfforaethol Blynyddol.

Gweithredu: Esbonio'r tueddiadau yn Atodiad 2 ynghyd â sylwebaeth **JL**

Y cyfarfod nesaf – 16 Gorffennaf ym Mangor